Safonau ac Ansawdd mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

Safonau ac Ansawdd Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru

Fersiwn Terfynol

1 Tachwedd 2001

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2002. Gellir atgynhyrchu'r adroddiad hwn yn ei gyfanrwydd neu fesul rhan at ddibenion addysgol anfasnachol cyhyd ag y bod yr holl ddyfyniadau'n cael eu hatgynhyrchu air am air heb eu haddasu, a'ch bod yn nodi'r ffynhonnell a'r dyddiad.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd CF24 5JW

Ffôn: 029 20 446446

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys		Tudalen
1	Cyflwyniad	1
2	Prif ganfyddiadau	5
3	Darpariaeth a safonau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd	9
4	Ansawdd yr addysg	26
5	Rheoli a chynllunio addysg bersonol a chymdeithasol	28
6	Defnydd a dylanwad y Fframwaith	33
7	Y ffordd ymlaen	36

1 Cyflwyniad

Cefndir i'r adroddiad

1.1 Cyhoeddwyd Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol, cyfnodau allweddol 1 i 4, gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) yn nhymor y gwanwyn 2000. Fe'i cymeradwywyd gan y Cynulliad i'w ddefnyddio mewn ysgolion fel sail ar gyfer gwella ansawdd a safonau addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Cyhoeddwyd canllaw atodol gan ACCAC yn nhymor yr hydref 2000 i gefnogi gweithrediad y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Nodau'r adroddiad

1.2 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn mewn ymateb i gais gan y Cynulliad i arfarnu effeithiolrwydd Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ACCAC.

Mae'r adroddiad:

- yn arfarnu ac yn adrodd ar safonau ac ansawdd addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd;
- yn cynnig trosolwg o barodrwydd ysgolion i gyflawni'r llinynnau addysg bersonol a chymdeithasol fel y nodir hwy yn y Fframwaith;
- yn asesu defnyddioldeb a phriodolrwydd Fframwaith ACCAC ar gyfer adolygu a datblygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol;
- yn rhoi enghreifftiau o arfer da; ac
- yn rhestru prif feysydd y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol y mae angen eu gwella.

Diffiniad a natur addysg bersonol a chymdeithasol a pham ei bod yn bwysig

1.3 Mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn rhoi strwythur cynllunio i ysgolion o gyfnod allweddol 1 i gyfnod allweddol 4. Mae'n nodi'r agweddau ar addysg y mae angen mynd i'r afael â nhw: yr agweddau cymdeithasol, cymunedol, corfforol, rhywiol, emosiynol, ysbrydol, moesol, galwedigaethol, dysgu ac amgylcheddol. Ar gyfer pob cyfnod allweddol, mae'r Fframwaith yn amlinellu'r deilliannau dysgu ar gyfer y 10 agwedd hon ac mae'n disgrifio'r cyfleoedd i ddisgyblion feistroli'r ymagweddau, y gwerthoedd, y medrau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig. Mae'r Fframwaith yn diffinio addysg bersonol a chymdeithasol fel:

"… popeth yr ymgymera'r ysgol ag ef er mwyn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol ei disgyblion. Mae hyn yn cynnwys pob un o'r profiadau a'r cyfleoedd dysgu cynlluniedig sy'n digwydd, nid yn unig yn yr ystafell ddosbarth, ond hefyd mewn meysydd eraill o brofiad ysgol sy'n nodweddion o ethos a bywyd cymunedol yr ysgol." (Tudalen 3)

Mae'r diffiniad hwn yn cydnabod hollbwysigrwydd y cwricwlwm cudd wrth gyflwyno negeseuon addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion. Gellir diffinio'r cwricwlwm cudd fel popeth sy'n cyfrannu at ethos ysgol. Lle bo'r ethos honno'n gadarnhaol, mae'n cefnogi bywyd cymunedol o ansawdd da mewn ysgolion, sy'n galluogi disgyblion i roi ar waith y medrau a'r agweddau personol a chymdeithasol y mae'r ysgol yn eu hyrwyddo.

Nid yw addysg bersonol a chymdeithasol yn bwnc fel y cyfryw, gan mai ond rhannau penodol ohoni y gellir eu haddysgu mewn gwersi. Mae'n ymwneud â datblygiad cyfan disgyblion fel unigolion sy'n byw mewn cymdeithas, ac mae'n bwysig fel sylfaen i fathau eraill o ddysgu. Er enghraifft, os yw disgyblion yn dioddef o ddiffyg hunan-barch ac yn methu perthnasu'n dda gyda phobl eraill, nid ydynt yn debygol o wneud cynnydd wrth ddysgu yn y dosbarth.

Statws addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion ar hyn o bryd

1.4 Ar hyn o bryd nid yw'n ofynnol yn gyfreithiol i ysgolion addysgu addysg bersonol a chymdeithasol, nac i ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Fodd bynnag, mae agweddau ar y gwaith yn orfodol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Er enghraifft, mae Deddf Diwygio Addysg 1996 Adran 351 yn datgan bod rhaid i ysgolion ddarparu cwricwlwm sy'n:

"hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol disgyblion yn yr ysgol a'r gymdeithas ac yn paratoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd fel oedolyn". (Tudalen 2)

Mae addysg bersonol a chymdeithasol hefyd yn un o'r gofynion cyffredin y maent a wnelo â holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Wrth astudio pob pwnc yn y cwricwlwm, dylid cynnig cyfleoedd i ddisgyblion, lle bo hynny'n briodol, ddatblygu a chymhwyso'r agweddau, y gwerthoedd, y medrau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n gysylltiedig ag addysg bersonol a chymdeithasol.

Hefyd, mae'n rhaid i ysgolion gymryd sylw o Gylchlythyrau'r Cynulliad ynglŷn â rhannau eraill o'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cylchlythyr 45/94[1] Addysg Rhyw mewn Ysgolion;
- Cylchlythyr 54/95[2] Camddefnyddio Cyffuriau: Atal mewn Ysgolion; a
- Chylchlythyr 3/99 Cefnogi Disgyblion a Chynhwysiad Cymdeithasol.

Mae'r Cynulliad hefyd wedi sefydlu tasgluoedd i adrodd a chynghori ar:

- addysg gorfforol a chwaraeon ysgol; a
- ffyrdd iach a gweithgar o fyw.

Sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

1.5 Mae'r adroddiad yn tynnu ar ddata[3] Estyn o arolygu, dan Adran 10 Deddf Arolygu Ysgolion 1996, holl ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru yn ystod y flwyddyn ysgol 1999 i 2000. Bu AEM hefyd yn ymweld â detholiad o'r ysgolion hyn yn ystod tymor y gwanwyn 2001 i:

- arfarnu dylanwad y Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol;
- trafod eu rhan yn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gyda'r staff;
- gweld gwersi;
- cyfweld grwpiau o ddisgyblion; ac
- arsylwi'r trefniadau ar gyfer disgyblion y tu allan i wersi.

[1] Mae'r Cylchlythyr wrthi'n cael ei ddiweddaru

[2] Mae'r Cylchlythyr wrthi'n cael ei ddiweddaru

[3] Mae data Estyn ar safonau a darpariaeth yn ddefnyddiol wrth adnabod materion sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgolion yng Nghymru, ac wrth arfarnu effeithiolrwydd y Fframwaith ar gyfer ABCh wrth ymdrin â'r materion hyn. Nid yw'r data hyn bob amser yn gweddu'n union i ddeg agwedd y Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Er enghraifft, dim ond at rai agweddau ar agweddau cymdeithasol a chymunedol Fframwaith ACCAC y mae data Estyn ar ddatblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn cyfeirio.

Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio tystiolaeth o gyhoeddiadau eraill yn gysylltiedig ag addysg bersonol a chymdeithasol, gan gynnwys:

- *Safonau ac Ansawdd Addysg Bersonol a Chymdeithasol (CA3 a CA4),* SPAEM 1997;
- *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 1999 i 2000,* Estyn Chwefror 2001;
- *Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru. Fframwaith ar gyfer Cynlluniau Lleol,* Y Cynulliad 2000;
- *Fframwaith Strategol ar gyfer Hyrwyddo Iechyd Rhyw yng Nghymru,* Y Cynulliad 2000;
- *Adroddiad y Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol. Cynllun Gweithredu i Gymru,* Y Cynulliad 2001; ac
- *Cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru,* ACCAC 2001.

2 Prif ganfyddiadau

Safonau cyffredinol mewn addysg bersonol a chymdeithasol

2.1 Yn gyffredinol, mae mwyafrif y disgyblion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyflawni safonau sydd o leiaf yn foddhaol mewn perthynas â'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Fodd bynnag, mae safonau'n amrywio o ran y deg agwedd a nodir yn y Fframwaith. Mae disgyblion yn aml yn rhoi'r agweddau, y gwerthoedd, y medrau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth maent wedi eu datblygu mewn gwersi ar waith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Safonau mewn ysgolion cynradd

2.2 Yn y blynyddoedd cynnar o fewn ysgolion cynradd, mae datblygiad personol a chymdeithasol bob plentyn bron yn foddhaol o leiaf mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn. Mae hynny'n wir hefyd yng nghyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2, gydag ychydig dros dri-chwarter yn cyflawni safonau da neu dda iawn.

Safonau mewn ysgolion uwchradd

2.3 Mewn ysgolion uwchradd, mae'r safonau'n dda neu'n dda iawn mewn rhyw ddwy ran o bump o ddosbarthiadau addysg bersonol a chymdeithasol yng nghyfnod allweddol 3, ac mewn traean o ddosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 4. Mae myfyrwyr 16 oed a hŷn yn cyflawni safonau boddhaol neu well mewn tua naw rhan o ddeg o'r gwaith mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol. Mae ychydig dros draean o'r gwaith hwn yn dda.

Y ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

2.4 Mae pob ysgol gynradd ac uwchradd bron yn cynnig darpariaeth foddhaol o leiaf ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r ddarpariaeth yn dda neu'n dda iawn mewn 70% o ysgolion cynradd, ac mewn 75% o ysgolion uwchradd. Dim ond lleiafrif o ysgolion uwchradd sy'n cynllunio'u rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol o gyfnod allweddol 4 i sicrhau dilyniad effeithiol i'r chweched dosbarth. Mae ysgolion arbennig yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygiad addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Mae bron bob un ohonynt yn darparu rhaglen gytbwys ac integredig sy'n berthnasol i anghenion disgyblion.

Ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd

2.5 Mae athrawon mewn ysgolion cynradd yn gwneud llawer i feithrin datblygiad addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Ym mwyafrif helaeth yr ysgolion cynradd, mae ansawdd yr addysgu yn foddhaol o leiaf. Mae'n dda neu'n dda iawn mewn ychydig llai na thri-chwarter o'r gwaith.

Ansawdd yr addysgu mewn ysgolion uwchradd

2.6 Yng nghyfnod allweddol 3, mae ansawdd yr addysgu mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol yn foddhaol neu'n well mewn bron i 90% o ddosbarthiadau, ac yn dda neu'n dda iawn mewn bron hanner. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'n foddhaol o leiaf mewn 85% o wersi addysg bersonol a chymdeithasol ac yn dda neu'n dda iawn mewn dros ddwy ran o bump ohonynt. Y tu allan i wersi addysg bersonol a chymdeithasol, dim ond mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd y mae'r addysgu ym mhynciau'r cwricwlwm cyfan wedi'i gynllunio i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn effeithiol.

Cyfraniad yr holl staff a mudiadau allanol

2.7 Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae gan yr holl staff, gan gynnwys goruchwylwyr amser cinio, gofalwyr, glanhawyr a rhieni sy'n cynorthwyo, rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Hwy sy'n sefydlu ethos yr ysgol. Mewn llawer o ysgolion, mae'r staff yn dysgu ffyrdd newydd i gysylltu â disgyblion. Yn yr arfer gorau, mae ysgolion wedi trefnu hyfforddiant mewn swydd ar gyfer eu staff i gefnogi eu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol. Maent yn gwneud defnydd cynyddol o fudiadau allanol ac arbenigwyr sy'n ymweld i addysgu agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol, yn enwedig lle'r ystyrir bod agweddau o'r fath yn sensitif neu'n arbenigol, er enghraifft, addysg cyffuriau, addysg rhyw a byd gwaith. Mae hyn yn gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ym mwyafrif yr ysgolion.

Ymagweddau disgyblion tuag at ddysgu

2.8 Mae pob ysgol yn cydnabod pwysigrwydd gwella presenoldeb, brwdfrydedd ac ymagweddau os yw'r disgyblion am ddysgu'n effeithiol. Mae addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd da yn gwneud hyn drwy:

- wella ansawdd bywyd disgyblion mewn ysgolion;
- sicrhau bod y cyrsiau sy'n cael eu cynnig yn berthnasol ac yn debygol o ddenu diddordeb disgyblion; ac
- argyhoeddi rhieni a phobl eraill pa mor berthnasol a gwerthfawr yw addysg, ynghyd â'r angen i ddisgyblion fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Oni bai fod ysgolion yn gwneud hyn yn effeithiol, mae perygl y bydd disgyblion yn gadael addysg cyn iddynt gael y medrau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt i chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

Cyfraniad gweithgaredd au allgyrsiol

2.9 Ym mhob ysgol gynradd bron, ac ym mhob ysgol uwchradd, mae rhan disgyblion mewn gweithgareddau allgyrsiol yn foddhaol o leiaf, ac yn dda neu'n dda iawn mewn dros hanner. Mae'r gweithgareddau hyn yn gwneud y cwricwlwm yn fwy perthnasol i bawb, yn enwedig y disgyblion hynny nad ydynt yn cael llawer o lwyddiant academaidd. Mae pobl ifanc yn dod yn fwy ymwybodol o'u potensial eu hunain ac yn magu hyder drwy'r gweithgareddau hyn. Maent yn cael eu cymell i ddysgu ac i ddatblygu ac adeiladu ar eu medrau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae digwyddiadau cymdeithasol a phrofiadau preswyl, pan fydd athrawon a disgyblion yn cymysgu'n gymdeithasol, yn gymorth iddynt ddod yn fwy ymwybodol o'r hyn yw ymddygiad priodol.

Cofnodi, asesiadau ac adrodd

2.10 Trwy arsylwi a thrafod eu gwaith, a thrwy broses hunan-asesiad y caiff disgyblion eu hasesu gan amlaf. Nifer fach o ysgolion sy'n asesu datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn ffurfiol trwy bynciau'r cwricwlwm. Mewn nifer cynyddol o ysgolion cynradd ac uwchradd, gofynnir i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain, ac maent yn gwneud defnydd da o'u hasesiadau wrth osod targedau ar gyfer gwella. Mae'r broses o adolygu cynnydd, dadansoddi cryfderau a gwendidau a gosod targedau ar gyfer gwella yn y dyfodol yn cyfrannu at ddatblygiad medrau allweddol disgyblion. Datblygir y medrau allweddol hyn gyntaf fel rhan o Ofynion Cyffredin y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn ddiweddarach drwy gymwysterau yng nghyfnod allweddol 4.

Parodrwydd ysgolion i gyflawni'r Fframwaith ar gyfer ABCh

2.11 Yn y cyfnod cymharol fyr ers ei gyhoeddi, mae'r Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol wedi cael ei dderbyn yn dda ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru bron. Er nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i ysgolion ddefnyddio'r Fframwaith, mae llawer ohonynt eisoes wedi gwneud cynlluniau i ddatblygu eu darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol eu hunain yn unol â'r Fframwaith. Mae pob ysgol eisoes yn addysgu rhai rhannau o addysg bersonol a chymdeithasol; er enghraifft, agweddau ar addysg iechyd sy'n ofynion cyfreithiol. Un o gryfderau pennaf y Fframwaith yw'r hyblygrwydd y mae'n ei amlinellu i ysgolion gyflawni addysg bersonol a chymdeithasol drwy ethos yr ysgol, gweithgareddau ysgol-gyfan, a thrwy bynciau'r cwricwlwm. Mae'r Canllaw Atodol Personol a Chymdeithasol yn ychwanegiad defnyddiol iawn i'r Fframwaith. Mae'r astudiaethau achos yn rhoi enghreifftiau da sut y gellir gweithredu'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol mewn ysgolion.

Effeithiolrwydd y Fframwaith

2.12 Mae'r deg agwedd ar addysg bersonol a chymdeithasol yn rhoi strwythur defnyddiol i ysgolion archwilio, adolygu a datblygu'r ddarpariaeth bresennol. Mae hyn yn gymorth i sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u haeddfedrwydd. Mae'r Fframwaith yn ddefnyddiol hefyd wrth roi arweiniad ar ddatblygu systemau a strwythurau i annog a galluogi disgyblion i gymryd rhan effeithiol yn y broses o wneud penderfyniadau yn y dosbarth, yn yr ysgol, neu mewn gwaith yn y gymuned. Mae mwy a mwy o ysgolion yn ystyried goblygiadau barn disgyblion ac yn chwilio am ffyrdd i ymateb yn gadarnhaol iddynt.

Agweddau ar y Fframwaith y mae angen eu datblygu ymhellach

2.13 Gofynnwyd i ACCAC ddatblygu Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer disgyblion rhwng 5 ac 16 oed. Mae hepgor y grŵp ôl-16 o'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn golygu nad yw'r Fframwaith yn llawn gefnogi'r broses cynllunio ysgol-gyfan ar gyfer dilyniant a pharhad.

Agweddau ar y Canllaw Atodol y mae angen eu datblygu ymhellach

2.14 Nid yw'r Canllaw Atodol yn rhoi gwybodaeth ddigonol sut i asesu, cofnodi ac adrodd ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Yn benodol, nid yw'n egluro'r cyfraniad y gall pynciau unigol yn y cwricwlwm ei wneud i'r broses hon.

Arweiniad pellach y mae ei angen ar ysgolion yn deg agwedd ABCh

2.15 Mae angen arweiniad pellach ar addysgu meysydd penodol o fewn pob un o'r deg agwedd a nodir o fewn y Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Byddai arweiniad o'r fath yn galluogi ysgolion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, yn enwedig mewn materion yn ymwneud ag:

- addysg iechyd a rhyw;
- dinasyddiaeth;
- materion hil;
- medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- ymwybyddiaeth ysbrydol ar draws y cwricwlwm; a
- chynorthwyo athrawon i fod yn fwy gweithredol wrth wrando ar broblemau a phryderon eu disgyblion.

3 Darpariaeth a safonau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd

Y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol

3.1 Cafodd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 1999-2000 fod pob ysgol bron yn gwneud trefniadau boddhaol o leiaf ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion, hyd yn oed cyn cyhoeddi'r Fframwaith. Roedd gan dros 70% o ysgolion cynradd a 75% o ysgolion uwchradd drefniadau da neu dda iawn ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd hyn yn cynnwys y modd yr oedd eu holl ethos yn cyfrannu at ddatblygiad disgyblion. Roedd yr arweiniad personol a chymdeithasol a roddai athrawon i ddisgyblion bron bob amser yn foddhaol neu'n well. Mewn dros dri-chwarter yr ysgolion cynradd ac uwchradd, roedd yn dda neu'n dda iawn. Rhoddai ysgolion arbennig flaenoriaeth uchel i ddatblygiad addysg bersonol a chymdeithasol. Roedd bron i bob un ohonynt yn darparu rhaglen gytbwys ac integredig a oedd yn berthnasol i anghenion disgyblion.

Ysgolion cynradd: Trefniadau ysgol-gyfan ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol



Ysgolion uwchradd: Trefniadau ysgol-gyfan ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol



Safonau mewn ABCh

3.2 Mae adroddiadau arolygiadau hefyd yn graddio safonau mewn ysgolion uwchradd lle addysgir addysg bersonol a chymdeithasol fel pwnc. Mae'r safonau'n dda neu'n dda iawn mewn rhyw ddwy ran o bump o ddosbarthiadau addysg bersonol a chymdeithasol yng nghyfnod allweddol 3, ac mewn traean o'r dosbarthiadau yng nghyfnod allweddol 4. Lle mae'r safonau'n dda, mae disgyblion yn gweithio'n dda yn y dosbarth ac yn rhoi'r agweddau, y gwerthoedd, y medrau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd ganddynt mewn gwersi ar waith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Effeithiolrwydd ysgolion wrth gyflawni deg agwedd ABCh

3.3 Mae darpariaeth ysgolion ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn amrywio, ar draws y deg agwedd ar addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r ddarpariaeth mewn llawer o feysydd yn effeithiol iawn yn aml; mae angen datblygu ymhellach mewn meysydd eraill.

Agwedd gymunedol

3.3.1 Mae agwedd gymunedol y Fframwaith yn ymwneud ag annog disgyblion i gymryd rhan weithgar fel dinasyddion mewn cyd-destunau lleol a byd-eang. Lle mae'r agwedd gymunedol wedi'i datblygu'n dda, mae ysgolion yn sicrhau bod disgyblion:

- yn gwybod sut mae'r systemau democrataidd yn gweithio ar lefelau lleol a chenedlaethol;
- â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'u diwylliant a'u treftadaeth Gymreig;
- yn deall pwysigrwydd y broses ddemocrataidd, trwy gymryd rhan mewn sefydliadau ysgol, megis cyngor yr ysgol;
- yn cymryd cyfrifoldeb mewn meysydd o fywyd ysgol;
- yn llunio ac yn cytuno ar reolau dosbarth ac ysgol, ac yn eu dilyn; ac
- yn elwa o bartneriaethau cryf gyda rhieni, y gymuned leol, ysgolion a sefydliadau eraill i gefnogi agweddau ar yr addysgu.

Astudiaeth achos: Deall llywodraeth

Ymwelodd disgyblion â Chanolfan Ymwelwyr ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol yn adeilad Pierhead ym Mae Caerdydd, fel rhan o'u rhaglen ar ddealltwriaeth gymunedol. Buont yn cymryd rhan mewn dadl ac yn pleidleisio ar fater mewn siambr ffug. Roedd hyn yn eu galluogi i gael gwybodaeth a dealltwriaeth am elfennau allweddol ar yr agwedd gymunedol, yn enwedig mewn perthynas â:

- swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- sut mae llywodraeth yn datblygu a sut mae'n effeithio ar unigolion; a
- materion lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Agwedd gymdeithasol

3.3.2 Mae'r agwedd gymdeithasol ar y Fframwaith yn delio â swyddogaeth teulu a ffrindiau, pwysau gan gyfoedion a bwlio, gwahaniaethau diwylliannol, rhagfarn a stereoteipio.

Mae datblygiad cymdeithasol disgyblion ym mhob ysgol yn foddhaol o leiaf. Mae'n dda neu'n dda iawn mewn dros bedair rhan o bump o ysgolion cynradd, ac yn dda neu'n dda iawn mewn ychydig llai na thri-chwarter yr ysgolion uwchradd a arolygwyd. Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn rhoi sylw boddhaol i wneud disgyblion yn ymwybodol o'r diwylliannau lu sydd yn y Gymru fodern, nododd Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 1999-2000 mai mewn dinasoedd a threfi â phoblogaethau ethnig amrywiol yn bennaf y ceir y gwaith gorau o hyd. Mewn rhai ardaloedd gwledig a rhannau o'r cymoedd diwydiannol, caiff disgyblion eu haddysgu am ddiwylliannau, credoau a gwledydd eraill, ond, yn aml, ychydig iawn y mae hyn yn ei wneud i annog cydraddoldeb hiliol yn y gymdeithas fodern yng Nghymru a Phrydain.

Lle mae'r agwedd gymdeithasol yn dda neu'n dda iawn:

- mae disgyblion a'r staff yn gofalu am ei gilydd a'u hamgylchfyd;
- mae disgyblion hŷn yn cefnogi'r rhai ifanc gyda'u gwaith ac mewn meysydd eraill o fywyd ysgol; ac
- mae disgyblion yn dysgu parchu a chefnogi ei gilydd trwy gydweithio mewn gweithgareddau grŵp amrywiol.

Mae nodweddion ar yr agwedd gymdeithasol nad ydynt wedi'u datblygu cystal mewn rhai ysgolion yn cynnwys:

- cynorthwyo disgyblion i ddysgu am yr amrywiaeth cyfoethog y mae diwylliannau eraill yn gynnig i'n cymdeithas; a
- hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amlddiwylliannol o fewn pynciau'r cwricwlwm.

Astudiaeth achos: Hyrwyddo amlddiwylliant ar draws y cwricwlwm

Mewn un ysgol gynradd, bu testun ar fannau pell ac agos yn gymorth i hyrwyddo amlddiwylliant trwy ddatblygu agweddau cadarnhaol a pharch tuag at bobl o hil wahanol. Bu disgyblion mewn dosbarth cyfnod allweddol 2 yn astudio ardal yn India ac yn cymharu ei nodweddion, ei gwaith, ei dulliau byw a'i thraddodiadau â'u hardal hwy eu hunain. Cyfrannodd rhiant o dras Indiaidd at y prosiect trwy gymryd sesiynau lle'r oedd disgyblion yn medru gweld y mathau o ddillad ac addurniadau traddodiadol sy'n cael eu gwisgo gan bobl yn y wlad honno. Cafodd disgyblion gyfle i flasu bwydydd traddodiadol y wlad. Dangosodd un disgybl hefyd yr arferion a'r defodau crefyddol y mae rhai teuluoedd Indiaidd yn eu harfer.

Agwedd foesol

3.3.3 Mae datblygiad moesol disgyblion yn dda neu'n dda iawn mewn dros naw rhan o ddeg o ysgolion.

Lle mae datblygiad moesol disgyblion yn dda neu'n dda iawn, mae ysgolion:

- yn hyrwyddo gwerthoedd a chredoau cadarn yn llwyddiannus;
- yn cynorthwyo disgyblion i ddod yn ymwybodol o'r angen am onestrwydd a chwarae teg ac i barchu pobl ac eiddo; ac
- yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddeall eu cyfrifoldebau tuag at bobl yn y byd ehangach, trwy gasglu arian at elusennau ac achosion da eraill a thrwy gymryd rhan mewn mathau gwahanol o waith gwirfoddol.

Astudiaeth achos: Dull hyfforddi ysgol-gyfan ar gyfer hyrwyddo addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgol fabanod.

Mewn un ysgol fabanod, mae'r goruchwylwyr amser cinio, y glanhawyr a'r gofalwr wedi ymuno â'r staff addysgu ar gyfer hyfforddiant mewn swydd (HMS) ar ddisgyblaeth bendant a chwarae creadigol. Buont yn cymryd rhan hefyd mewn cyrsiau ar fod yn rhiant. Yn dilyn yr hyfforddiant, mabwysiadodd yr ysgol strategaeth ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da. Datblygodd aelodau'r staff strategaeth ar gyfer delio â bwlio hefyd, yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- mynd ati'n weithredol i integreiddio disgyblion unig yng ngweithgarwch yr iard chwarae;
- delio â sefyllfaoedd lle mae plant yn cael eu heithrio o weithgareddau grŵp; a
- bod yn ymwybodol fod yna gefndir i bob problem.

Mae'r goruchwylwyr amser cinio hefyd wedi bod yn ymwneud â dulliau eraill o hyrwyddo agweddau cadarnhaol yn yr ysgol. Maent wedi ysgrifennu stori a chân i'w defnyddio gyda disgyblion dosbarth derbyn i'w cynorthwyo i integreiddio i fywyd yr ysgol. Yn y modd hwn, mae adeiladu a chynnal yr ethos positif wedi dod yn gyfrifoldeb i bawb sy'n gweithio yn yr ysgol.

Astudiaeth achos: Dull hyfforddi ysgol-gyfan ar gyfer hyrwyddo addysg bersonol a chymdeithasol mewn ysgol uwchradd

Mewn ysgol uwchradd, cyflwynwyd system 'cyfaill' gan weithiwr ieuenctid yr ysgol drwy addasu cynllun a awgrymwyd gan y cynllun 'Childline in Partnership with Schools' (CHIPS). Yn y cynllun hwn ceir disgyblion hŷn yn 'mabwysiadu' rhyw chwech o ddisgyblion yr un ym Mlwyddyn 7 ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol newydd. Mae nodau'r cynllun cyfaill yn cynnwys:

- rhoi cefnogaeth weithredol i'r disgyblion iau yn ystod y cyfnod newid o ysgol gynradd i ysgol uwchradd trwy sefydlu system gefnogaeth gan gyfoedion; a
- galluogi disgyblion i gymryd rhan mewn prosiect gwerthoedd personol trwy roi cyfrifoldeb i'r disgyblion hŷn o fewn eu hamgylchedd ysgol eu hunain.

Cofrestrodd nifer o ddisgyblion Blwyddyn 8 a hŷn ar gyfer yr hyfforddiant cyfaill. Mae'r hyfforddiant yn eu cynorthwyo i ystyried eu hofnau hwy eu hunain wrth iddynt gychwyn ym Mlwyddyn 7 am y tro cyntaf. Mae'n eu hannog i gael gwell ymwybyddiaeth o bryderon y disgyblion iau sydd yn eu gofal, trwy edrych ar y gwahaniaethau rhwng disgyblion, a derbyn y gwahaniaethau hynny. Mae cyfeillion yn cael cyngor ar seicoleg eu swyddogaeth ofalu, megis gwerthfawrogi iaith y corff a datblygu'r medr i fod yn wrandawyr da.

Mae swyddogaeth y cyfaill yn cynnwys:

- ymweld â'r ysgol gynradd a ddyrannwyd iddo/iddi a chyfarfod grwpiau o ryw hanner dwsin o ddisgyblion Blwyddyn 6 a'u rhieni yn ystod y tymor cyn iddynt drosglwyddo i'w hysgol uwchradd;
- cynorthwyo yn ystod diwrnod anwytho'r ysgol;
- gwisgo bathodyn er mwyn i unrhyw ddisgyblion Blwyddyn 7 sydd ag angen cymorth neu gyngor fedru eu hadnabod yn hawdd;
- cynorthwyo'r disgyblion sydd newydd gyrraedd i fynd o gwmpas y campws;
- unodi athrawon, a chynorthwyo disgyblion i ddod o hyd i'r bws iawn i fynd adref;
- cynorthwyo disgyblion ag anawsterau gyda'u hastudiaethau; a
- gweithio fel cyfaill mynwesol tymor hir, er enghraifft, wrth helpu i ddelio â bwlio neu broblemau eraill.

Agwedd ysbrydol

3.3.4 Mae datblygiad ysbrydol disgyblion yn dda neu'n dda iawn mewn dros ddwy ran o dair o ysgolion cynradd. Mae cyd-addoli yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad ysbrydol disgyblion yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd. Yn gyffredinol, mae ysgolion uwchradd yn gwneud llai i hyrwyddo datblygiad ysbrydol eu disgyblion nag i unrhyw faes arall yn eu datblygiad personol. Yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, mae cyfraniad cyd-addoli i ddatblygiad ysbrydol disgyblion yn anfoddhaol yn hanner yr ysgolion a arolygwyd.

Ysgolion cynradd: Darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion



Ysgolion uwchradd: Darpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion



Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 1999-2000

Lle mae'r agwedd ysbrydol yn dda neu'n dda iawn:

- trefnir cyd-addoliad ar gyfer yr holl ddisgyblion yn ddyddiol, gan gynnig cyfleoedd i ddisgyblion feddwl am eu credoau crefyddol, eu gwerthoedd a'u profiadau; a
- cynigir llawer o gyfleoedd i ddisgyblion ystyried eu credoau crefyddol, eu gwerthoedd a'u profiadau yn y cwricwlwm ehangach.

Mae'r agwedd ysbrydol yn llai effeithiol lle:

- nad yw sesiynau cyd-addoli yn cyfrannu lawer at ddatblygiad ysbrydol disgyblion; ac
- nid archwilir credoau, gwerthoedd a phrofiadau disgyblion yn y cwricwlwm ehangach.

Astudiaeth achos: Arfer da wrth gynyddu datblygiad ysbrydol disgyblion drwy gyd-addoli

Arweiniodd y pennaeth wasanaeth ysgol-gyfan ar gyfer disgyblion oedran cynradd. Roedd pob aelod o'r staff yn bresennol a chafwyd sesiwn cyd-addoli ar gychwyn ac ar ddiwedd y gwasanaeth. Daeth un o'r disgyblion ifanc i'r blaen i gynnau cannwyll i nodi cychwyn y cyd-addoliad. Canodd y disgyblion emyn ac yna aeth y pennaeth ymlaen i sôn am 'bethau sy'n peri anhawster i ni'. Cynigiodd y disgyblion eu cyfraniadau, wedi'u hysgrifennu ar siart troi. Yna dywedodd y pennaeth mai gweld disgyblion yn dial ar ddisgyblion eraill yr oedd ef yn ei chael hi'n fwyaf anodd i ddelio ag ef. Yna, darllenodd disgybl stori o'r Beibl ar y thema 'troi'r foch arall'. Wedyn cafwyd cyfnod o dawelwch, a gofynnwyd i'r disgyblion feddwl am yr hyn a ddarllenwyd a sut y gallent ddysgu ohono. Daeth y sesiwn cyd-addoli i ben gyda'r disgyblion yn canu emyn arall ac yn rhoi cyfle arall i bawb weddïo. Yna, diffoddwyd y gannwyll gan un o'r disgyblion, gan nodi diwedd y sesiwn cyd-addoli. Yn olaf, rhoddwyd gwobrau i ddisgyblion yr wythnos ar sail ymagweddau da yn ogystal ag ymdrech a chyflawniad.

Agweddau corfforol, rhywiol ac emosiynol y Fframwaith

3.3.5 Mae tua thri-chwarter yr ysgolion yn gwneud darpariaeth dda neu dda iawn ar gyfer datblygiad corfforol, rhywiol ac emosiynol disgyblion. Yn aml, ymdrinnir â'r agweddau hyn mewn amseroedd cylch mewn ysgolion cynradd, ac o fewn rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol ysgolion uwchradd. Mae sesiynau'n cynnwys codi hunan-barch unigolion a grwpiau disgyblion sy'n agored i niwed mewn ysgolion. Mae angen hyfforddiant pellach ar lawer o athrawon yn y meysydd hyn, os ydynt yn mynd i fod yn fwy gweithgar wrth wrando ar broblemau a phryderon plant, fel y mae Adroddiad Waterhouse yn ei argymell.

Addysgir llawer o agweddau corfforol a rhywiol hefyd trwy bynciau'r cwricwlwm, megis mewn gwyddoniaeth ac addysg gorfforol, lle mae disgyblion yn dysgu am ffyrdd iach o fyw, diogelwch personol, addysg rhyw, a chyffuriau a chamddefnyddio sylweddau. Lansiwyd 'Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru' yn hydref 1999. Mae awdurdodau addysg lleol (AALl) ac awdurdodau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo negeseuon addysg iechyd yn weithredol, ac i gynyddu ymwybyddiaeth disgyblion ynghylch pwysigrwydd dull iach o fyw a deiet iach. Mae gwefan yr awdurdod iechyd www.healtheschool.org.uk yn annog pobl ifanc i gael gwybodaeth ynglŷn â maeth, ysmygu a materion eraill yn ymwneud â iechyd. Mae gwybodaeth hefyd ar gael, er enghraifft, am y mathau o brydau bwyd iach y gellir eu darparu yn ystod yr awr ginio. Mae llawer o wasanaethau bwyd ysgol eisoes yn hyrwyddo mentrau bwyta'n iach trwy gynnig dewis o brydau bwyd maethlon, isel eu braster i ddisgyblion, yn hytrach na bwydydd cyflym. Nid yw rhai ysgolion wedi ymestyn y dewis hwn i siop fwyd yr ysgol eto, lle mae'r incwm a gynhyrchir o werthu byrbrydau a diodydd ysgafn yn mynd i gronfa'r ysgol

Mae'r Cynulliad yn ystyried argymhellion y tasglu addysg gorfforol a chwaraeon ysgol. Fe fydd llawer o ysgolion uwchradd yn elwa o Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer addysg gorfforol a chwaraeon ysgol er mwyn datblygu ac uwchraddio cyfleusterau.

Yn gyffredinol, mae ysgolion yn gwneud ymdrechion da i sicrhau bod disgyblion yn cael mwy o wybodaeth am addysg rhyw. Mae gwersi'n cynnwys trafodaethau am beryglon rhyw heb ddiogelwch a chlefydau cysylltiad rhywiol. Serch hynny, mae amledd beichiogrwydd ymysg merched yn eu harddegau mewn rhannau o Gymru yr uchaf yng ngorllewin Ewrop.

[1] National Diet and Nutritional Survey: Young People Aged 4-18 years. Volume 1: Report of the Diet and Nutritional Survey. Gregory J, et al (2000) The Stationary Office.

[2] Tackling Obesity in England. Report of the Comptroller and Auditor General (2001) National Audit Office.

Yn yr un modd, er gwaethaf y mentrau dulliau byw iach a gweithgar a hyrwyddir mewn ysgolion, mae mwyafrif y disgyblion yn dewis peidio â gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Canfu arolwg diweddar[1] o ddeiet a maeth bod 40% o'r holl fechgyn a 60% o'r holl ferched yn gwneud llai na'r lefel ymarfer corff a argymhellir, sef o leiaf awr y dydd o weithgarwch cymedrol i ddwys. Mae'r ffigyrau'n codi i 56% a 68% yn eu tro ar gyfer y grŵp oed 15 i 18. O ganlyniad, mae'r Swyddfa Archwiliadau Cenedlaethol[2] wedi rhybuddio y gallai lefelau gordewdra yn y DU godi i'r lefelau presennol yn yr Unol Daleithiau mewn deng mlynedd, lle mae un o bob pedwar o'r boblogaeth â gorbwysedd peryglus.

Astudiaeth achos: Addysg rhyw

Mewn dosbarth Blwyddyn 10, cyflwynir disgyblion i destun clefydau cysylltiad rhywiol ac mae'r wers yn archwilio agweddau'r disgyblion tuag at berthynas. Mae'n cynnwys rhoi sylw i AIDS/HIV a chanfyddiad disgyblion o weithgarwch rhywiol amlgymharus. Mae nodweddion da y wers yn cynnwys:

- ymagwedd ddigynnwrf ac agored yr athro at y testun;
- cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan weithgar mewn grwpiau bychain i archwilio'u hagweddau a'u gwerthoedd eu hunain at y testun yn fanwl;
- trafodaeth synhwyrol ac aeddfed mewn grwpiau bach, cymysgryw ar destunau sensitif sy'n gallu peri embaras;
- dealltwriaeth dda disgyblion yn gyffredinol o agweddau pwysig ar ymddygiad rhywiol; a
- defnyddio terminoleg briodol, ond graffig yn aml, heb achosi embaras.

Agwedd alwedigaethol

3.3.6 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd yn cyflwyno agweddau ar addysg alwedigaethol ar draws y cwricwlwm. Mae cysylltiadau da gyda chyflogwyr lleol ac ymwneud â'r Partneriaethau Addysg a Busnes (PAB) yn rhoi ymwybyddiaeth briodol i ddisgyblion ac yn cynyddu'u dealltwriaeth o fyd gwaith a materion galwedigaethol a gyrfa. Mae data arolygiad am ansawdd partneriaethau ysgolion gyda diwydiant yn cysylltu ag agwedd alwedigaethol y Fframwaith.

Mewn ysgolion cynradd, er bod y ddarpariaeth ar gyfer yr agwedd hon yn foddhaol neu'n well mewn tua pedair rhan o bump o'r gwaith, mae'r enghreifftiau o waith da neu dda iawn yn llai nag mewn unrhyw un o naw agwedd arall y Fframwaith.

Lle mae'r agwedd alwedigaethol yn dda, mae ysgolion cynradd yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion:

- ymweld â chyflogwyr, siopau a ffatrïoedd lleol i gael ymwybyddiaeth o agweddau ar fyd gwaith yn eu hardal;
- gweithio ar brosiectau mewn amrywiaeth o bynciau sy'n seiliedig ar fyd gwaith, neu sy'n deillio'n uniongyrchol ohono; a
- chymryd rhan mewn ffug fentrau busnes sydd yn aml yn gofyn i ddisgyblion ymwneud â gwerthu cynhyrchion, delio ag arian a thrafod teitlau swyddi a swyddogaethau gwaith.

Mae pob ysgol uwchradd bron yn darparu ystod boddhaol o leiaf o weithgareddau sy'n ymdrin ag agweddau galwedigaethol y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Cyflwynir y gweithgareddau hyn trwy bynciau, addysg gyrfaoedd a gweithgareddau'n gysylltiedig â busnes, mewn cydweithrediad a PAB yn aml. Lle mae'r addysg alwedigaethol yn gryfder o fewn y cwricwlwm, mae ysgolion uwchradd yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn:

- diwrnodau menter yn gweithio fel tîm, weithiau ochr yn ochr ag ymgynghorwyr o fusnesau lleol, gan ddefnyddio data go iawn i ddatrys problemau busnes, paratoi a chyflwyno'u canfyddiadau a datblygu'u medrau cyfathrebu;
- nosweithiau gyrfaoedd, cyfweliadau cynghori am yrfaoedd a chyfweliadau ffug; a
- chlybiau Sadwrn sy'n rhoi profiad galwedigaethol, er enghraifft, mewn peirianneg neu adeiladu.

Fodd bynnag, mae cyflwyno Cwricwlwm 2000 wedi arwain at leihad cyffredinol yn yr amser a roir yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 i agweddau ar addysg alwedigaethol, megis profiad gwaith a diwrnodau diwydiant.

Astudiaeth achos: Partneriaeth addysg a busnes

Mewn un ysgol gyfun, ceir gweithgaredd partneriaeth addysg-busnes ar gyfer pob grŵp blwyddyn yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae'r mentrau hyn wedi gwneud cyfraniad da at ddatblygu medrau allweddol disgyblion, ac maent yn cysylltu â nifer o agweddau ar y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Fel rhan o'r gweithgareddau:

- Mae disgyblion Blwyddyn 7 a Blwyddyn 8 wedi cymryd eu tro i ymweld â chwmnïau yn eu hardal a thu hwnt. Er enghraifft, rhoddwyd tasg i ddisgyblion ganfod gymaint â phosibl ynglŷn â phob un o'r cwmnïau hyn ac i gyflwyno'u canfyddiadau i gynulleidfa wedi ei darparu gan y cwmni. Yn y broses, datblygodd disgyblion dechnegau cyfweliad a defnyddio'r arfer o chwarae rhan. Llwyddwyd i gyflawni cyrchnodau hefyd yn ymwneud â phrydlondeb, presenoldeb, cydweithio a chyflawni terfynau amser;
- Mae disgyblion Blwyddyn 9 wedi ymgymryd â her dechnoleg. Buont yn gweithio gydag adran afioneg British Airways i ddatrys problem dechnegol, megis sut i ddylunio dyfais i fesur trydan statig;
- Mae disgyblion Blwyddyn 10 wedi gweithio ochr yn ochr â diwydianwyr mewn proses weithgynhyrchu. Roedd yn rhaid iddynt gostio'r prosiect, cyflwyno mantolen a phenderfynu a ddylid derbyn grant i gynorthwyo'r broses weithgynhyrchu; ac
- Mae disgyblion Blwyddyn 11 wedi bod yn cymryd rhan mewn cyfweliadau ffug gyda phersonél o gwmnïau lleol.

Dros y pum mlynedd, mae hyn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at yr agwedd alwedigaethol yn natblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, ynghyd ag agweddau eraill arno.

Agwedd ddysgu

3.3.7 O fewn yr agwedd hon, canolbwyntir yn bennaf ar gael disgyblion i wybod sut y maent yn dysgu orau. Mae'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn amlinellu pwysigrwydd y canlynol i ddisgyblion:

- rheoli a threfnu eu hamser yn effeithiol;
- adnabod eu cryfderau a'u gwendidau;
- deall sut y gall cynlluniau gweithredu wella eu dysgu; a
- gosod targedau ar gyfer gwella; a gwybod am ystod o dechnegau i gynorthwyo'r broses astudio a pharatoi ar gyfer arholiadau.

Mae tystiolaeth arolygiadau am safonau disgyblion yn y medrau allweddol, yr ymateb i ddarpariaeth ysgolion ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, yn taflu goleuni ar yr agwedd hon ar addysg bersonol a chymdeithasol. Mae tua phedair rhan o bump o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd yn ymateb yn dda iawn i'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol, o'u cymharu â rhyw dair rhan o bump mewn ysgolion uwchradd.

Mae dulliau ac ymagweddau addysgu tra ystyriol; ym mhob pwnc yn gallu hyrwyddo dysgu da a gwella hunan-barch disgyblion. Er enghraifft, mae'r celfyddydau perfformio, megis cerdd a drama a dawns, yn gwneud cyfraniad arbennig o gryf at ddatblygu hunan-hyder disgyblion, a throsglwyddir hyn yn aml i waith mewn pynciau eraill.

Mae cynnwys hanes a daearyddiaeth yn aml yn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth well o faterion megis addysg ar gyfer dinasyddiaeth a dealltwriaeth gymunedol, gan gynnwys dinasyddiaeth fyd-eang, y Cwricwlwm Cymreig, a chydraddoldeb a chytgord hiliol. Gall y pynciau hyn (neu'r dyniaethau) roi cyd-destun hefyd ar gyfer dealltwriaeth well o'r egwyddorion a'r cysyniadau Ewropeaidd y seilir nifer cynyddol o fframweithiau deddfwriaethol y Deyrnas Unedig arnynt.

Astudiaeth achos: Cyngor yr Ysgol – rhoi llais i ddisgyblion

Yn dilyn ymweliad ag ysgol gynradd yn Stockholm a drefnwyd fel rhan o'r Prosiect Comenius, penderfynodd staff a disgyblion ysgol gynradd yn ne Cymru sefydlu cyngor ysgol. Cafwyd cymorth gan ymgynghorydd yr Awdurdod Addysg Lleol dros addysg bersonol a chymdeithasol. Disgyblion Blwyddyn 6 fu'n cadeirio'r cyngor. Bu'r pennaeth yn gweithio fel ysgrifennydd a mynychodd cydgysylltydd addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol holl gyfarfodydd y cyngor i roi cefnogaeth. Rhoddwyd adroddiad am waith cyngor yr ysgol mewn cyfarfodydd o'r corff llywodraethol.

Ym 1998, roedd angen i'r ysgol benodi dirprwy bennaeth newydd. Cytunodd y llywodraethwyr y dylid cynnwys aelodau cyngor yr ysgol yn y broses gyfweld. Hysbyswyd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer y byddent yn cael eu cyfweld gan gyngor yr ysgol ar ddiwrnod y cyfweliad, yn dilyn eu taith o gwmpas yr ysgol.

Yn ystod yr wythnosau cyn y cyfweliad, dysgodd aelodau cyngor yr ysgol sut oedd y broses gyfweld yn gweithio. Buont yn trafod y math o gwestiynau y byddent o bosibl yn dymuno eu gofyn gyda'r pennaeth a'r cydgysylltydd addysg bersonol a chymdeithasol. Ar ddiwrnod y cyfweliad, penderfynodd pedwar o'r disgyblion hŷn ofyn tri chwestiwn i'r chwe ymgeisydd ar y rhestr fer:

- Beth hoffech ei newid yn ein hysgol yn dilyn eich ymweliad bore heddiw?
- Sut fyddech chi'n gwneud gwersi'n fwy diddorol?
- Petaech yn gallu dewis arwyddair i'n hysgol, beth fyddai hwnnw?

Cymerodd y cydgysylltydd addysg bersonol a chymdeithasol nodiadau yn ystod y cyfweliad, a nododd aelodau cyngor yr ysgol ymatebion yr ymgeiswyr. Er enghraifft, roedd un yn nerfus iawn, nid oedd un arall wedi eu cymryd o ddifrif, roedd un arall wedi siarad uwch eu pennau, ac nid oedd un wedi trafferthu ateb eu cwestiynau o gwbl.

Yna, lluniodd cyngor yr ysgol eu rhestr fer eu hunain, sef tri ymgeisydd ac un ffefryn pendant. Ar ddiwedd y dydd, wedi i bob grŵp cyfweld gyfarfod i drafod y penodiad, roedd dewis y disgyblion o ymgeisydd yn union yr un fath â dewis y corff llywodraethol ei hun.

Mae cyngor yr ysgol yn parhau i chwarae rhan weithgar ym mhroses yr ysgol o wneud penderfyniadau. Bu'n gymorth i ddatrys problemau disgyblion, ac mae wedi awgrymu ffyrdd i wella amgylchedd ffisegol yr ysgol. Mae hefyd wedi cynorthwyo i greu holiadur i ddisgyblion, i roi gwybodaeth i'r ysgol yn ei phroses o ddiweddaru ei pholisi addysgu a dysgu.

Mae'r ddarpariaeth allgyrsiol yn foddhaol o leiaf ym mhob ysgol uwchradd ac ym mhob ysgol gynradd bron. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at broses ddysgu'r disgyblion trwy:

- eu gwneud yn fwy ymwybodol o'u gallu hwy eu hunain;
- eu cynorthwyo i ddysgu medrau newydd; ac
- eu galluogi i adeiladu ar lawer agwedd arall ar eu medrau personol a chymdeithasol.





Mae safonau medrau allweddol disgyblion yn gwella bob blwyddyn, ond mae rhai agweddau ar y gwaith yn wannach nag eraill. Mewn un rhan o bump o'r ysgolion cynradd, ac mewn ychydig llai na thraean yr ysgolion uwchradd, mae'r safonau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn anfoddhaol. Mewn llythrennedd, ysgrifennu yw'r maes gwannaf o hyd, gydag ychydig dros ddegfed ran o'r gwaith mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn anfoddhaol neu'n wael. Hefyd, mae angen gwneud llawer o waith mewn ysgolion uwchradd i wella medrau allweddol disgyblion mewn rhifedd a defnyddio rhif ar draws y cwricwlwm, i wella'u dysgu a'u perfformiad eu hunain, ac i wella'r broses datrys problemau. Mae addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnig cyfleoedd priodol i arfer ac atgyfnerthu'r medrau allweddol hyn. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd eto wedi atgyfnerthu proses addysgu'r medrau allweddol trwy eu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

Astudiaeth achos: Hunan-gymorth mewn asesu yng nghyfnod allweddol 1

Mae gan un ysgol fabanod bolisi hunan-gymorth mewn asesu, yn seiliedig ar y tair egwyddor gwydnwch, dyfeisgarwch a myfyrgarwch. Heriwyd disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, ac addysgwyd strategaeth iddynt wneud hynny. Cawsant eu haddysgu i fabwysiadu'r canllawiau syml canlynol:

- peidiwch â chynhyrfu os nad ydych yn deall tasg; stopiwch a meddyliwch, beth ydw i'n ei wybod yn barod?
- gofynnwch i ffrind neu gofynnwch i oedolyn (fel y cymorth olaf un); a
- defnyddiwch adnoddau (er enghraifft, llinellau rhif, llyfrau geiriau neu bapur sgrap).

Mae plant ifanc iawn eisoes yn gyfarwydd â'r strategaeth, ac mae'r dull addysgu wedi eu hannog a'u galluogi i fagu mwy o hyder a dod yn ddysgwyr annibynnol.

Agwedd amgylcheddol

3.3.8 Mae'r Cynulliad wedi nodi datblygiad cynaliadwy fel un o'i dair prif thema. Yn ei ddogfen www.betterwales.com mae'n diffinio datblygiad cynaliadwy fel:

"bodloni anghenion y presennol heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain."

Mae Cwricwlwm 2000, drwy ei raglenni astudio gwyddoniaeth a daearyddiaeth, yn cyfeirio'n benodol at yr agwedd amgylcheddol a datblygiad cynaliadwy. Mae agwedd amgylcheddol y Fframwaith yn cefnogi'r pwysleisiadau pwysig hyn.

Mae mwyafrif yr ysgolion yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer disgyblion sy'n ymgymryd ag ystod o waith ymarferol, yn bennaf yn yr amgylchedd lleol, a hynny drwy ystod o ymagweddau. Ym mhob ysgol bron, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dda o faterion amgylcheddol. Anogir disgyblion i ofalu am yr amgylchedd hefyd, trwy gymryd rhan mewn cynlluniau fel ailgylchu yn yr ysgol a'r gymuned leol a thu hwnt. Mae'r holl weithredoedd hyn yn hyrwyddo dealltwriaeth am egwyddorion datblygiad cynaliadwy. Fel arfer, cyfyngir addysgu'r agwedd amgylcheddol mewn ysgolion uwchradd i adrannau gwyddoniaeth, daearyddiaeth ac addysg grefyddol. Ychydig iawn o addysg a hyfforddiant mewn swydd a gafwyd i athrawon yn y maes hwn. Yn gyffredinol, o ganlyniad, nid yw athrawon mewn meysydd pwnc eraill yn ymwybodol o'r cyfraniad y gall eu pynciau a'u hadrannau hwy ei wneud tuag at ddatblygu ac atgyfnerthu egwyddorion addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy.

Astudiaeth achos: Yr hawl i oroesi

Mae grŵp o ysgolion cynradd ac ysgol arbennig wedi cydweithio ar brosiect amgylcheddol trawsgwricwlaidd o'r enw "Yr Hawl i Oroesi". Nod y prosiect yw gwneud disgyblion yn ymwybodol o'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan lygredd a sbwriel, a thrwy ddinistrio fforestydd glaw. Ymwelodd awdur preswyl â phob ysgol, ac mae wedi cael y disgyblion i ymwneud â chyfansoddi barddoniaeth. Maent hefyd wedi cyfrannu at sgript ar gyfer drama gerdd a chyflwyniad dawns a gynhaliwyd ar gyfer y cyhoedd yn y theatr gelfyddydau leol. Ar y cyd â hyn, cynhaliwyd gwasanaeth ym mhob un o'r ysgolion gyda'r thema, 'Pwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd o'r lefel leol i'r lefel fyd-eang'. Ynghyd â'r elfen o hwyl, yr ymdeimlad o gyflawni a'r gwersi mewn gwaith tîm, dysgodd y disgyblion lawer am eu byd a'r angen i gadw'r byd hwnnw'n ddiogel ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

4 Ansawdd yr addysg

Ansawdd yr addysgu mewn ysgolion cynradd

4.1 Mae ansawdd yr addysgu mewn addysg bersonol a chymdeithasol yn dda neu'n dda iawn mewn ychydig llai na thri-chwarter yr holl ysgolion cynradd. Mae nifer cynyddol o ysgolion yn defnyddio amser cylch yn dda fel agwedd bwysig ar addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Mae nifer o ysgolion cynradd yn gwau materion personol a chymdeithasol i'w strategaethau llythrennedd. Maent yn defnyddio 'llyfrau mawr' yn dda fel mannau cychwyn ar gyfer trafodaethau pellach ar faterion personol a chymdeithasol gyda disgyblion.

Ansawdd yr addysgu mewn ysgolion uwchradd

4.2 Yng nghyfnod allweddol 3, roedd yr addysgu mewn addysg bersonol a chymdeithasol yn foddhaol neu'n well mewn bron 90% o ddosbarthiadau, ac yn dda neu'n dda iawn mewn bron hanner. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd yr addysgu yn foddhaol o leiaf mewn 85% o ddosbarthiadau, ac yn dda neu'n dda iawn mewn dros ddwy ran o bump o ddosbarthiadau.

Nodweddion addysgu da

4.3 Lle mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ar draws y cwricwlwm yn dda neu'n dda iawn, mae athrawon yn annog disgyblion i:

- ganolbwyntio ar sut maent yn dysgu, gymaint ag ar destun y dysgu;
- defnyddio dulliau archwiliol, yn seiliedig ar ymholiadau, i ddysgu ym mhob un o'r pynciau;
- ymateb i gwestiynau penagored fel modd i ysgogi'r arfer o ddatrys problemau a meddwl yn greadigol;
- myfyrio ar faterion a rhannu eu barn gyda phobl eraill;
- gwrando'n ofalus a mynegi'u syniadau a'u barn yn hyderus;
- cymryd rhan effeithiol mewn trafodaethau gyda'r athro a disgyblion eraill mewn parau neu grwpiau bychain;
- gwneud cynnydd pendant wrth ddatblygu medrau allweddol; a
- rhoi'r agweddau, y gwerthoedd, y medrau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi'u datblygu, mewn addysg bersonol a chymdeithasol a gwersi eraill, ar waith y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Diffygion yn yr addysgu

4.4 Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae athrawon:

- yn rhoi gormod o bwyslais ar gael disgyblion i gwblhau eu tasgau ysgrifenedig, a thaflenni gwaith yn arbennig, heb fawr o egluro na thrafod y testun;
- yn defnyddio ystod cyfyng o ddulliau addysgu a dysgu; ac
- yn rhoi sylw annigonol i ddatblygu medrau allweddol disgyblion, yn enwedig wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, rhifedd a defnyddio rhif, datrys problemau a gwella eu dysgu a'u perfformiad eu hunain.

Asesu, cofnodi ac adrodd

4.5 Nifer fach o ysgolion sy'n asesu datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion drwy bynciau'r cwricwlwm. Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, trwy arsylwi a thrafod eu gwaith, a thrwy eu hunan-asesiad eu hunain y caiff disgyblion eu hasesu gan amlaf. Mewn ysgolion uwchradd, mae disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain yn dda wrth gwblhau cynlluniau gweithredu ar gyfer cofnodion cyflawniad eu hysgol, neu fel rhan o gwrs gwobrwyo ieuenctid. Mae'r broses o adolygu cynnydd, dadansoddi cryfderau a gwendidau a gosod targedau ar gyfer gwella yn y dyfodol yn gwneud cyfraniad pwysig at ddatblygu medrau allweddol disgyblion.

5 Rheoli a chynllunio addysg bersonol a chymdeithasol

Trefniadau mewn ysgolion cynradd

5.1 Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, ni cheir gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ar wahân. Yn briodol, mae datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn digwydd wrth i gyfleoedd godi'n ddigymell yn ystod eu gwaith yn y dosbarth, ac yn aml wrth ymateb i ddigwyddiadau sy'n codi y tu allan i'r ystafell ddosbarth o dro i dro. Defnyddir amser cylch yn dda hefyd mewn rhai ysgolion i annog disgyblion i fynegi'u barn a'u gwerthoedd. Mae athrawon yn delio â llawer agwedd ar ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn y gwersi hyn. Yn nodweddiadol, mae ysgolion yn amserlennu 45 munud bob wythnos neu bythefnos.

Mae rhai ysgolion cynradd yn dechrau cynllunio dull integredig sy'n ceisio manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ar draws y cwricwlwm. Nid oes modd mesur yn gywir faint o amser a roddir i'r agweddau hyn ar addysg bersonol a chymdeithasol o fewn gwaith testun neu o fewn pynciau'r cwricwlwm. Mae nifer cynyddol o ysgolion cynradd yn defnyddio gweithgareddau penodol i addysgu agweddau ar eu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys diwrnodau neu wythnosau menter i addysgu agweddau ar addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, diwrnodau neu wythnosau iechyd, prosiectau amgylcheddol, ac ymweliadau gan gyflogwyr ag ysgolion, a chan ddisgyblion â lleoliadau gwaith. Ychydig iawn o ysgolion cynradd sydd â pholisi ar wahân ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r mwyafrif yn dibynnu ar arweiniad yn eu polisi ymddygiad, eu polisïau ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, ac mewn polisïau eraill megis polisïau addysg rhyw.

Trefniadau mewn ysgolion uwchradd

5.2 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, os nad pob ysgol uwchradd, yn cynnig gwersi ar wahân ar yr amserlen mewn addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer disgyblion naill ai yng nghyfnod allweddol 3 neu gyfnod allweddol 4, neu'r ddau. Mae cynnwys y cyrsiau addysg bersonol a chymdeithasol yn amrywio'n helaeth rhwng ysgolion. Fodd bynnag, mae rhai testunau, megis addysg iechyd, perthnasau ag eraill a medrau astudio, yn gyffredin i'r rhan fwyaf o ysgolion. Ceir amrywiaeth mawr hefyd o ran trefniadau ysgolion ar gyfer gwersi addysg bersonol a chymdeithasol penodol. Mae rhai ysgolion yn eu cynnal yn wythnosol, eraill yn eu cynnal bob pythefnos, ac mae gan ysgolion eraill drefniadau mwy cymhleth. Mae rhai ysgolion yn cymryd amser o'r pynciau sylfaen i ddarparu mwy o amser ar gyfer gwersi addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion. Mae hyn yn cael effaith niweidiol ar ansawdd, lled a chydbwysedd y cwricwlwm a gynigir i ddisgyblion. Mae rhai ysgolion yn defnyddio bron pob aelod o'r staff i addysgu addysg bersonol a chymdeithasol, ac ysgolion eraill yn defnyddio tîm bychan. Mae ansawdd addysg bersonol a chymdeithasol yn well yn aml pan fydd yr holl athrawon ynghlwm wrth addysgu agweddau ar y rhaglen. Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, os nad pob ysgol uwchradd, gynllun gwaith ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r cynllunio ysgol-gyfan ar gyfer dilyniant a pharhad yn well mewn ysgolion lle ceir polisi a chynllun gwaith i arwain yr addysgu mewn addysg bersonol a chymdeithasol.

Mewn nifer llai o ysgolion, mae cyfraniad pynciau eraill a meysydd bywyd ysgol y tu allan i wersi at ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion wedi'i gynllunio. Lle ceir arfer da, mae adrannau'n unodi cyfleoedd perthnasol i ddatblygu ac atgyfnerthu agweddau ar y Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol o fewn eu cynlluniau gwaith pwnc. Mae tiwtoriaid dosbarth, a thiwtoriaid blwyddyn neu dŷ sy'n monitro cynnydd disgyblion, hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at eu datblygiad trwy gyfnod dosbarth dyddiol, sy'n rhan o'r rhaglen.

Monitro ac arfarnu addysg bersonol a chymdeithasol

5.3 Dechrau datblygu y mae ysgolion cynradd o ran monitro'u darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae ysgolion uwchradd wedi datblygu ymhellach yn hyn o beth, er mai ychydig iawn sy'n monitro cyfraniad addysgu pwnc at ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd ac uwchradd, os nad yr ysgolion i gyd, yn defnyddio'r Fframwaith fel strwythur i archwilio, adolygu a datblygu'r ddarpariaeth bresennol i sicrhau bod y cyfan y dylid ei addysgu i ddisgyblion yn cael ei addysgu, ar lefel sy'n gweddu i'w hoed a'u haeddfedrwydd. Er nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i

ysgolion ddefnyddio'r Fframwaith, mae llawer ohonynt eisoes wedi gwneud cynlluniau i ddatblygu eu darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol eu hunain yn unol â'r Fframwaith. Mae pob ysgol eisoes yn addysgu rhai rhannau o addysg bersonol a chymdeithasol, er enghraifft, agweddau ar addysg iechyd, sydd yn ofynnol yn gyfreithiol.

Cydgysylltu addysg bersonol a chymdeithasol

5.4 Mae nifer cynyddol o ysgolion cynradd yn penodi aelod o'r staff addysgu yn gydgysylltydd addysg bersonol a chymdeithasol. Lle nad oes cydgysylltydd, mae'r pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am y ddarpariaeth. Yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd, ceir cydgysylltydd unigol sy'n goruchwylio'r rhaglen ac sy'n monitro gwaith aelodau eraill o'r staff. Yn aml, mae penaethiaid blwyddyn yn gyfrifol am gynllunio, gydgysylltu, monitro ac arfarnu'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol a addysgir gan eu tîm tiwtoriaid dosbarth eu hunain.

Hunan-arfarniad ac addysg bersonol a chymdeithasol

5.5 Mae ysgolion yn dod yn fwyfwy cymwys, trwy'r broses hunan-arfarnu, wrth adnabod eu cryfderau, delio â'u gwendidau, a gosod eu targedau eu hunain ar gyfer gwella. Mae'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn darparu sylfaen dda ar gyfer arfarnu'r agwedd hon ar ddarpariaeth ysgol. Gan fod y Fframwaith yn anstatudol, a chan nad ydyw'n gyfarwyddol o ran sut y dylid ei gyflawni, mae ysgolion yn gallu ei ddefnyddio i adeiladu ar raglenni sydd eisoes yn gweithredu. O ganlyniad, nid yw'r rhan fwyaf o athrawon yn edrych arno fel baich biwrocrataidd ychwanegol.

Anawsterau wrth arfarnu dylanwad y ddarpariaeth mewn addysg bersonol a chymdeithasol

5.6 Mae'n anodd arfarnu effaith lawn darpariaeth ysgol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ar ddatblygiad disgyblion ac ar y safonau a gyflawnir. Mae arfarnu agweddau a gwerthoedd yn fwy anodd nag arfarnu cynnydd yng ngwybodaeth disgyblion, eu dealltwriaeth a'u datblygiad o ran medrau. Mae Canllaw atodol ACCAC yn cydnabod hyn pan yw'n datgan:

"Mae gwerthuso mewn ABCh mewn gwirionedd yn ymwneud yn rhannol, ond nid yn gyfan gwbl, â holi a yw'r canlyniadau dysgu sydd yn y Fframwaith wedi eu cyflawni. Yr hyn sy'n anodd yw priodoleddu canlyniadau mewn datblygiad personol a chymdeithasol disgybl i ymyriad arbennig gan ysgol. Mae'n bosib hefyd na fydd y canlyniadau hyn yn amlygu eu hunain tan yn nes ymlaen ym mywyd y disgybl beth bynnag." (Tudalen 12)

Er bod gan ysgolion ran bwysig i'w chwarae wrth ffurfio agweddau a gwerthoedd pobl ifanc, mae gan y teulu, a'r gymdeithas, ran yn y broses hefyd. Eto i gyd, ychydig ysgolion sydd wedi gosod targedau ar gyfer arfarnu eu llwyddiant, er enghraifft, wrth wella ymddygiad a dysgu, neu wrth gael disgyblion i ymwneud fwyfwy â gwaith gwirfoddol.

Staffio, adeiladau ac adnoddau ar gyfer dysgu

5.7 Mewn ysgolion, mae gan athrawon, staff cynnal a goruchwylwyr ran bwysig i'w chwarae yn natblygiad personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae pob oedolyn yn cyfrannu i raddau wrth ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau, ymagweddau, gwerthoedd ac ymddygiad y disgyblion. Mae'r modd y mae'r staff cyfan yn cydymweithio gyda disgyblion yn hollbwysig wrth greu ethos priodol sy'n cryfhau cwricwlwm cudd yr ysgol.

Ansawdd yr adeiladau

5.8 Yn gyffredinol, mae ysgolion yn darparu amgylchedd dymunol ac esmwyth ar gyfer proses ddysgu disgyblion a'u datblygiad personol a chymdeithasol. Fodd bynnag, canfu Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 1999-2000 fod effaith yr adeiladau ar safonau ac ansawdd yn anfoddhaol mewn tua deg y cant o ysgolion uwchradd, a chwech y cant o ysgolion cynradd. Mae'n datgan:

"Er bod arwyddion parhaus o welliant eleni, mae gormod o ysgolion o hyd lle mae'r staff a'r disgyblion yn gweithio o dan amodau amhriodol. Mae toeon sy'n gollwng, paent yn plicio ac ystafelloedd dosbarth llwn yn rhy gyffredin ac yn creu amgylchedd annerbyniol. Nid oes gan lawer o ysgolion lecynnau lle gall y disgyblion dreulio eu hegwyl gyda'i gilydd mewn amgylchedd pleserus. Oherwydd hyn, mae'n well gan lawer o'r disgyblion grwydro'r stydoedd cyfagos neu gwrdd mewn canolfannau siopa lleol. Mae toiledau ysgolion yn aml mewn cyflwr mor wael fel nad yw'r disgyblion yn eu defnyddio... Mae'n sefyll i reswm nad yw adeiladau o ansawdd gwael yn ysgogi staff na disgyblion... Mae canolfannau dysgu â chyflenwad helaeth o adnoddau, ynghyd â llyfrgelloedd deniadol, yn ysgogi myfyrwyr a hyfforddeion mewn ysgolion a cholegau. Mae amodau dysgu fel hyn yn annog myfyrwyr a hyfforddeion i anelu at ragoriaeth o ran datblygu eu gwybodaeth a'u medrau." (Tudalen VI)

Cyfraniad asiantaethau allanol

5.9 Mae ysgolion yn tynnu ar amrywiaeth o adnoddau i addysgu agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys deunydd a gynhyrchir yn fasnachol yn ogystal â deunydd o ansawdd da a gynhyrchir gan ystod eang o grwpiau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus. Mae'r ysgolion mwy effeithiol hefyd yn defnyddio ystod priodol o asiantaethau allanol a siaradwyr gwadd i ategu a chyfoethogi eu gwaith mewn addysg bersonol a chymdeithasol.

Astudiaeth achos: Gwneud gwahaniaeth – Addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy

Mae nifer o ysgolion yn defnyddio llyfr a gyhoeddwyd yn 2001 gan Oxfam a'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB) ac sy'n cael ei gymeradwyo gan Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Maent wedi defnyddio'r gweithgareddau a awgrymir i hyrwyddo datblygiad cynaliadwy ar draws y cwricwlwm. Roedd y rhain yn cynnwys astudiaeth o'r defnydd a wneir o adnoddau, dŵr, gwaredu gwastraff ac ailgylchu, a masnachu teg gyda'r gwledydd sy'n datblygu yn y byd.

Mae disgyblion wedi cael eu cyflwyno i'r cysyniad o fasnachu teg drwy archwilio effaith eu dewisiadau fel defnyddwyr ar fywydau pobl eraill yn lleol ac yn fyd-eang. Rhoddwyd cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol trwy:

- gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gweithredoedd;
- uniaethu â phrofiadau a theimladau pobl eraill;
- deall bod eu gweithredoedd yn esgor ar ganlyniadau; a
- gwybod am y broses a'r bobl sy'n ymwneud â chynhyrchu, dosbarthu a gwerthu nwyddau, a swyddogaeth hysbysebu o'r lefel leol i'r lefel fyd-eang.

6 Defnydd a dylanwad y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol

Dylanwad y Fframwaith

6.1 Mewn cyfnod byr iawn, mae'r Fframwaith wedi cael ei dderbyn yn dda mewn ysgolion. Er nad yw'n ofynnol yn gyfreithiol i ysgolion ddefnyddio'r Fframwaith, mae llawer eisoes yn ei weld fel cymorth wrth gynllunio i wella'u darpariaeth eu hunain ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol.

Cryfderau'r Fframwaith

6.2 Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwneud defnydd da o'r Fframwaith a'r Canllaw Atodol ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae'r Fframwaith a'r Canllaw:

- yn cynnig diffiniad o addysg bersonol a chymdeithasol;
- yn egluro nodau a phwrpas addysg bersonol a chymdeithasol;
- yn nodi deilliannau dysgu ar gyfer pob cyfnod allweddol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol;
- yn unodi agweddau'r unigolyn y gellir eu datblygu;
- yn disgrifio'r gwerthoedd, yr agweddau, y medrau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y dylid eu datblygu;
- yn darparu strwythur y gellir ei ddefnyddio i archwilio, adolygu a datblygu'r ddarpariaeth bresennol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu haddysgu ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u haeddfedrwydd; ac
- yn cefnogi, trwy astudiaethau achos, y cynllunio a'r addysgu mewn addysg bersonol a chymdeithasol drwy ethos yr ysgol, drwy weithgareddau ysgol-gyfan, a thrwy holl bynciau'r cwricwlwm.

Meysydd i'w datblygu ymhellach o fewn y Fframwaith

6.3 Mae ysgolion uwchradd wedi cael y Fframwaith yn llai effeithiol:

- yn y broses gynllunio ysgol-gyfan ar gyfer dilyniant a pharhad, gan nad yw'n darparu ar gyfer myfyrwyr dros 16 oed.

Meysydd i'w datblygu ymhellach o fewn y Canllaw Atodol

6.4 Mae ysgolion yn teimlo nad yw'r Canllaw Atodol yn rhoi digon o wybodaeth sut i:

- asesu, cofnodi ac adrodd am ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion, yn enwedig ar draws pynciau'r cwricwlwm yn ei gyfanrwydd.

Meysydd o fewn deg agwedd addysg bersonol a chymdeithasol lle mae angen arweiniad pellach ar ysgolion

6.5 Mae angen arweiniad pellach ar ysgolion ar addysgu meysydd penodol ym mhob un o'r deg agwedd a unodir o fewn y Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol. Mae'r meysydd hynny fel a ganlyn:

Agwedd gymunedol

- dulliau gweithio'n gysylltiedig â'r agwedd gymdeithasol y gellir eu datblygu ym mhob cyfnod allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth;

Agwedd gymdeithasol

- sut y gall addysgu am ddiwylliannau, credoau a gwledydd eraill gyfrannu'n fwy effeithiol at hyrwyddo cydraddoldeb a chytgord hiliol, yn enwedig mewn ardaloedd a chymunedau lle nad oes llawer o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol[1];

Agwedd ysbrydol

- rhoi cyfarwyddyd sut y gellir datblygu'r agwedd ysbrydol ar draws y cwricwlwm, a sut y gall credoau crefyddol disgyblion, eu gwerthoedd a'u profiadau, gael eu harchwilio mewn amrywiaeth o bynciau'r cwricwlwm;

Agweddau corfforol, rhywiol ac emosiynol

- delio â'r pryderon lu sydd gan athrawon wrth addysgu agweddau ar addysg gorfforol, rhyw ac emosiynol. Yn benodol, sut i:

  a) fod yn fwy gweithgar wrth wrando ar broblemau a phryderon eu disgyblion, fel y mae Adroddiad Waterhouse yn ei argymell; a

  b) gwneud y negeseuon addysg iechyd a rhyw yn fwy perthnasol, a sicrhau eu bod yn cael mwy o ddylanwad, wrth hyrwyddo ffordd iachach o fyw ar gyfer disgyblion ac wrth atal achosion o feichiogrwydd ymysg merched ifanc oedran ysgol;

Agwedd alwedigaethol

- amlinellu swyddogaethau'r Bartneriaeth Addysg a Busnes, cyngor gyrfaoedd ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith wrth gyfrannu at addysg alwedigaethol disgyblion;

[1] Gweler: Cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth yn y cwricwlwm ysgol yng Nghymru, ACCAC, 2001

Agwedd ddysgu

- nodi o fewn yr agwedd ddysgu sut y gall datblygiad medrau allweddol disgyblion ar draws y cwricwlwm gefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion. Mae angen arweiniad i gynorthwyo athrawon i gynllunio a chyflwyno'r meysydd perthnasol yng Ngofynion Cyffredin Cwricwlwm Cymru 2000 drwy bynciau'r cwricwlwm, er mwyn iddynt fynd law yn llaw â rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol athrawon; ac

Agwedd amgylcheddol

- amlinellu dulliau dysgu y gall ysgolion eu defnyddio i ddylanwadu ar agweddau, gwerthoedd ac ymddygiad disgyblion at faterion amgylcheddol a datblygiad cynaliadwy, ac i gefnogi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth maent yn eu cael mewn perthynas â'r materion hyn.

7 Y ffordd ymlaen

Cyngor Estyn i'r Cynulliad

7.1 Mae Estyn yn argymell:

- ➢ y dylai addysg bersonol a chymdeithasol ddod yn ofynnol yn statudol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd o fis Medi 2002; ac
- ➢ y dylai'r Fframwaith ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol barhau'n anstatudol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac mewn ysgolion arbennig.

Y prif feysydd i'w gwella:

Gellir gwella addysg bersonol a chymdeithasol mewn nifer o ffyrdd.

Ysgolion

7.2.1 Mae angen i ysgolion:

- ➢ cydnabod bod datblygiad personol a chymdeithasol wrth graidd pob agwedd ar addysg;
- ➢ cryfhau'r rhan y mae pob pwnc yn ei chwarae a'r ddarpariaeth y tu allan i wersi wrth hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion;
- ➢ rhoi mwy o bwyslais ar fedrau allweddol wrth gynyddu datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion;
- ➢ archwilio ffyrdd i wella agweddau ac ymddygiad disgyblion o ran addysg iechyd a materion yn ymwneud â hil;
- ➢ gwneud darpariaeth well ar gyfer datblygiad ysbrydol disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- ➢ cefnogi datblygiad proffesiynol pob athro mewn addysg bersonol a chymdeithasol; a
- ➢ chynyddu a gwella'r ystod adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol.

Y Cynulliad, ACCAC, ac eraill

7.2.2 Argymhellir y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ACCAC ac eraill ddatblygu'r canlynol ymhellach:

- ➢ y gefnogaeth dda bresennol a ddarperir i ysgolion yn y Fframwaith a'r Canllaw Atodol ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol fel yr awgrymir yn adran chwech o'r adroddiad hwn.

Y Cynulliad, ELWa, ac eraill

7.2.3 Mae angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) ac eraill:

- ➢ ystyried ffyrdd i hybu mudiadau gwirfoddol, preifat a gwasanaethau cyhoeddus i gymryd mwy o ran mewn mentrau addysg bersonol a chymdeithasol o fewn ysgolion.